Cyllid & Thollau EM

# Cofrestru diddordeb mewn bod yn weithredwr safle tollau porthladd rhydd

Mae'r ffurflen hon yn cael ei defnyddio gan fusnesau i gofrestru diddordeb mewn bod yn weithredwr safle tollau porthladd rhydd.

Llenwch eich manylion cyswllt ac anfonwch y ffurflen hon i'r cyfeiriad e-bost isod a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i'ch helpu drwy'r broses.

## Manylion cyswllt

**Enw'r person i gysylltu ag ef**

**Cyfeiriad e-bost**

**Rhif ffôn**

**Rhif EORI**

**Enw busnes llawn wedi ei gofrestru yn erbyn eich rhif EORI**

Anfonwch y ffurflen hon drwy e-bost at: freeportregistrations@hmrc.gov.uk a defnyddiwch deitl pwnc yr e-bost – Cofrestru diddordeb – yn ogystal ag enw eich busnes / – Register an interest – plus your business name

### Pwysig: darllenwch hyn cyn anfon e-bost

**Diogelwch gwybodaeth a diogelwch dogfennau**

Mae CThEM yn cymryd diogelwch gwybodaeth bersonol o ddifrif.

Drwy roi eich cyfeiriad e-bost rydych yn cadarnhau eich bod yn fodlon i ni anfon gwybodaeth am fanylion eich busnes, gan gynnwys gwybodaeth ariannol a defnyddio atodiadau. Mae hyn ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â'ch diddordeb mewn bod yn weithredwr safle tollau.

Mae'r prif beryglon o ddefnyddio e-byst sy'n ymwneud â CThEM fel a ganlyn:

- cyfrinachedd a phreifatrwydd – mae risg y gallai e-byst a anfonir dros y rhyngrwyd gael eu rhyng-gipio
- cadarnhau pwy ydych – mae'n hanfodol ein bod yn cyfathrebu gyda chysylltiadau busnes sefydledig yn eu cyfeiriadau e-bost cywir yn unig
- nid oes sicrwydd bod e-bost a geir dros rwydwaith anniogel, fel y rhyngrwyd, heb gael ei newid ar y ffordd
- gallai gwybodaeth ariannol gael ei chamddefnyddio – gallai atodiadau gynnwys feirws neu god maleisus
- byddwn yn disensiteiddio gwybodaeth lle bynnag y bo'n bosibl - er enghraifft, drwy ddyfynnu rhan o unrhyw gyfeirnod unigryw yn unig – rydym yn fodlon trafod sut y gallwch wneud yr un peth ond parhau i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom
- drwy roi eich cyfeiriad e-bost rydych yn cadarnhau eich bod yn deall ac yn derbyn y risgiau hyn – bydd y cadarnhad hwn yn cael ei gadw ar ffeil a bydd yn berthnasol i bob gohebiaeth e-bost yn y dyfodol nes byddwn wedi cael gwybod fel arall
- os byddai'n well gennych i ni beidio ag ymateb i'ch ymholiad drwy e-bost - er enghraifft, gan fod gan bobl eraill fynediad at eich cyfrif e-bost o bosibl, rydym yn fodlon ymateb drwy ddull arall y bydd angen cytuno arno
- I gael rhagor o wybodaeth, gweler Polisi preifatrwydd CThEM (ar y we)